**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru**

## Crynodeb Gweithredol

Yn y ddogfen hon cyflwynir ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar 22 Mai 2013.

Mae gan rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol a fforddiadwy sydd wedi'i integreiddio'n dda rôl allweddol i'w chwarae wrth wella cystadleurwydd economaidd Cymru a rhoi cyfle i bobl gael gafael ar swyddi a gwasanaethau. Cyfyd sawl her wrth geisio cyflawni hyn, a chroesawaf waith y Pwyllgor Menter a Busnes wrth iddynt ystyried sut gallwn oresgyn yr heriau hyn. Mae'n bleser gennyf dderbyn bron pob argymhelliad, mewn egwyddor o leiaf.

Wrth dderbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion, rwyf yn falch o allu dweud bod y gwaith o weithredu nifer o'r argymhellion yn mynd rhagddo'n dda.

Isod gweler ymateb manwl i'r 25 argymhelliad a chamau gweithredu manwl fel y nodwyd gan y Pwyllgor.

*Argymhelliad 1. Parhau i lobïo Llywodraeth y DU am berthynas statudol gyda Network Rail, yn cynnwys datganoli pwerau i bennu allbynnau lefel uchel i seilwaith rheilffyrdd Cymru, tebyg i bwerau Llywodraeth yr Alban.*

**Derbyn mewn egwyddor**
Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth i Ran 2 Comisiwn Silk, rydym eisoes yn trafod gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli mwy o bwerau ym maes rheilffyrdd. Rhaid inni ddeall yn glir beth yw'r costau a'r risgiau cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cymryd cyfrifoldebau ynghylch seilwaith rheilffyrdd.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd, ond byddai unrhyw drafodaeth ar ddatganoli pwerau ym maes rheilffyrdd yn gorfod cynnwys trafodaethau am drosglwyddo cyllidebau i gyd-fynd â phwerau newydd.

*Argymhelliad 2. Parhau i lobïo Llywodraeth y DU am fwy o rôl yn y broses dyfarnu masnachfreintiau rheilffyrdd fel y mae'n effeithio ar Gymru, yn arbennig bwerau i bennu cytundebau masnachfraint sydd at ei gilydd yn cynnwys gwasanaethau i Gymru'n unig, megis Masnachfraint Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd.*

**Derbyn mewn egwyddor**
Fel y nodwyd uchod, rydym eisoes yn trafod gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli mwy o bwerau ym maes rheilffyrdd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi blaenoriaethau ar gyfer manyleb masnachfraint rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd, ond byddai datganoli pwerau masnachfreintiau rheilffyrdd yn golygu bod angen ail-negodi trosglwyddo cyllideb o’r Adran Drafnidiaeth.

*Argymhelliad 3. Parhau i lobïo Llywodraeth y DU am ddatganoli rheoleiddio a chofrestru bysiau i Gymru, yn cynnwys gwneud Comisiynydd Traffig Cymru yn atebol i Weinidogion Cymru.*

**Derbyn**
Mae rheoleiddio bysiau yn un o’r meysydd ar gyfer datganoli pellach a nodwyd yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i Ran 2 Comisiwn Silk.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid ydym yn gwybod yn iawn beth fydd goblygiadau ariannol rheoleiddio’r diwydiant bysiau, oherwydd byddai costau’n amrywio yn dibynnu’n union ar ba fath o reoleiddio a fyddai’n digwydd. Byddai’r goblygiadau ariannol yn rhan allweddol o’r broses i benderfynu ar ffordd addas o reoleiddio bysiau.

*Argymhelliad 4. Defnyddio’r holl bwerau sydd ar gael iddi i yrru integreiddio ar drafnidiaeth gyhoeddus, a sicrhau bod gan staff ar bob lefel o lywodraeth y sgiliau a’r arfau i wireddu polisi trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol.*

**Derbyn**
Mae integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn flaenoriaeth ac adlewyrchir hyn yn ein rhaglenni grantiau, er enghraifft yn y Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac yn ein ffordd o ddatblygu cysyniad Metro yn Ne-ddwyrain Cymru.

O fis Ebrill 2013 ymlaen, bydd ein cyllid i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol a bysiau sy’n angenrheidiol yn gymdeithasol yn cael ei ddefnyddio gyda’r bwriad o annog strategaethau aml-fodd sy’n croesi ffiniau. Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar gwmnïau yn cyrraedd safonau ansawdd gofynnol yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf, sy’n cynnwys integreiddio â moddau eraill.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol uniongyrchol; gellir gwneud hyn drwy’r cyllid sydd eisoes yn bodoli.

*Argymhelliad 5. Manteisio ar y cyfle a geir wrth adnewyddu’r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus integredig a sicrhau bod polisi yn cael ei gyd-drefnu a’i wireddu’n effeithiol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol*.

**Derbyn**
Ar hyn o bryd rwyf wrthi’n pennu’r blaenoriaethau ar gyfer fframwaith cynllunio trafnidiaeth newydd. Mae’n amlwg y dylai unrhyw fframwaith newydd ganolbwyntio ar integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau bod cyswllt rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr argymhelliad hwn. Caiff goblygiadau ariannol y fframwaith cynllunio trafnidiaeth newydd eu hystyried yn fanwl wrth i'r fframwaith gael ei ddatblygu.

*Argymhelliad 6. Sicrhau bod newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio, sydd i gael eu cyflwyno drwy'r Bil Diwygio Cynllunio a ddaw gerbron yn fuan, yn cynnwys gofyniad cryfach ar i bob cynllun datblygu mawr (a) gynnwys darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol a mynd ati'n ymarferol i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus integredig, gynaliadwy, neu fel arall y gwrthodir caniatâd cynllunio iddo; a (b) ymgynghori â chyrff cynllunio trafnidiaeth yn gynnar, a hynny'n cynnwys cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru*.

**Gwrthod**

Bwriad y Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig yw symleiddio'r system gynllunio a sicrhau bod llai o feichiau a gweithdrefnau diangen. Nid yw'n fwriad bod y Bil arfaethedig yn rhoi sylw i faterion polisi sy'n cael eu diweddaru'n gyson drwy adolygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru. Mae fframwaith y Polisi Cynllunio ar ffurf PPW a TAN 18 eisoes yn pennu fframwaith polisi clir wrth geisio cael datblygiadau newydd i gael eu lleoli mewn mannau sy'n gyfleus o ran trafnidiaeth gyhoeddus integredig. Ni all y system gynllunio reoleiddio sut mae cwmnïau trafnidiaeth preifat yn gweithio. Ond, drwy sicrhau bod datblygiad yn cael ei leoli'n gynaliadwy, mae modd lleihau'r angen i deithio. Disgwyliwn fod PPW yn cael ei ddehongli gan awdurdodau cynllunio lleol ac yn cael ei gyflwyno mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n creu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio; mae PPW hefyd yn ystyriaeth sylweddol mewn ceisiadau cynllunio.

O ran argymhelliad 6, mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Datblygu) (Cymru) eisoes yn pennu bod angen ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd a Gweinidogion Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio. O ganlyniad, rydym yn credu bod y darpariaethau angenrheidiol i gwrdd ag argymhelliad y Pwyllgor eisoes ar waith.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

*Argymhelliad 7. Sicrhau bod cysylltiadau cerdded a beicio at wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn cael blaenoriaeth wrth roi Bil Teithio Llesol (Cymru) ar waith, a chymryd camau drwy bolisïau bysiau a rheilffyrdd ehangach i wella'r seilwaith cerdded a beicio a'r ddarpariaeth ar gyfer beiciau ar fysiau a threnau.*

**Derbyn**
Mae modd i'r cysylltiadau rhwng trafnidiaeth gyhoeddus a'r ddarpariaeth teithio llesol gael sylw yn y canllawiau darparu ar gyfer Bil Teithio Llesol (Cymru). Byddwn yn annog cwmnïau bysiau i ymgynghori â theithwyr ar y galw am gyfleusterau cludo beiciau. Mae prydlondeb gwasanaethau a llefydd

gwag yn faterion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer bysiau a beiciau ar drenau.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes angen cyllid ychwanegol i gyflawni'r argymhelliad hwn, ond byddai'n golygu bod yr arian sydd eisoes ar gael ar gyfer teithio llesol yn cael ei dargedu'n well.

*Argymhelliad 8. Sefydlu mecanweithiau cyflawni priodol fel bod cynllunio trafnidiaeth yn dod yn elfen brif ffrwd ar draws gwaith holl adrannau Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol.*

**Derbyn**
Mae prosiect penodol wedi'i sefydlu i sicrhau cyswllt rhwng darpariaeth trafnidiaeth a diwygio iechyd. Bydd deall gofynion trafnidiaeth amrywiaeth o wasanaethau yn ganolbwynt pwysig wrth gynllunio trafnidiaeth yn y dyfodol ac mae hyn eisoes yn rhan o'r strategaethau rhwydwaith bysiau a ddatblygir fel rhan o ofyniad ein trefniadau newydd ar gyfer cyllid bysiau.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes angen cyllid ychwanegol i gyflawni'r argymhelliad hwn, ond byddai'n golygu bod arian yn cael ei dargedu'n well yn y maes hwn.

*Argymhelliad 9. Sicrhau bod y tasgluoedd trafnidiaeth integredig sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd yn y Gogledd a'r De-ddwyrain yn arwain at gynlluniau cyflawni clir, wedi'u costio, sy'n adlewyrchu meysydd polisi ehangach megis iechyd a chynllunio defnydd tir.*

**Derbyn mewn egwyddor**
Mae Tasglu Trafnidiaeth Integredig De Ddwyrain Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad yn barod. Disgwylir adroddiad Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd Ddwyrain Cymru ddiwedd mis Mehefin. Byddaf yn ystyried cynnwys y ddau adroddiad yn ofalus er mwyn sicrhau bod modd rhoi argymhellion ar waith yn effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn. Gallai goblygiadau ariannol ddeillio o argymhellion y Tasgluoedd, a rhoddir ystyriaeth ofalus i'r rhain fel rhan o ddatblygu cynlluniau cyflawni. Mae'r broses hon eisoes ar waith o ran adroddiad Tasglu De Ddwyrain Cymru, ac mae cais wedi'i gyflwyno am gyllid cyfalaf.

*Argymhelliad 10. Sefydlu a oes defnydd effeithiol yn cael ei wneud yng Nghymru o ddarpariaethau o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (fel y'i diwygiwyd) i wella gwasanaethau bysiau, a hyrwyddo'u gweithrediad er mwyn hwyluso mwy o gydweithredu a chyd-drefnu gwasanaethau*.

**Derbyn**

Wrth roi trefn cyllido bysiau newydd ar waith, rwyf wedi dweud yn glir fy mod am annog awdurdodau lleol i sefydlu Partneriaethau Bysiau Statudol gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol wrth dderbyn yr argymhelliad hwn gan fod modd gwneud hyn gyda chyllid sydd eisoes yn bodoli.

*Argymhelliad 11. Symud tuag at reoleiddio mwy ar y farchnad fysiau yng Nghymru, yn cynnwys ystyried trefn fasnachfreinio o ran tendro llwybrau/rhwydweithiau bysiau, a hynny wedi'i seilio ar gystadleuaeth ar yr ochr gyflenwi.*

**Derbyn**
Er nad yw rheoleiddio'r farchnad fysiau yn fater sydd wedi'i ddatganoli, rwyf yn derbyn egwyddor sylfaenol yr argymhelliad.

Mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau ar gyfer llunio Contractau Ansawdd bysiau, gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru, sydd i bob pwrpas yn fasnachfreintiau.

Rwyf yn defnyddio ein cyllid i sicrhau gwell canlyniadau ac rwyf wedi dweud yn glir y bydd cyllid bysiau yn y dyfodol yn dibynnu ar gwmnïau bysiau yn cyrraedd safonau ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf. Gallai hyn gynnwys Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd statudol rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, a fyddai'n arwain at wariant mwy cydgysylltiedig ac effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid ydym yn gwybod yn iawn beth fydd goblygiadau ariannol rheoleiddio'r diwydiant bysiau, oherwydd byddai costau'n amrywio yn dibynnu'n union ar ba fath o reoleiddio a fyddai'n digwydd. Byddai'r goblygiadau ariannol yn rhan allweddol o'r broses i benderfynu ar ffordd addas o reoleiddio bysiau. Byddai Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd Bysiau yn defnyddio cyllid sydd ar gael yn barod.

*Argymhelliad 12. Sicrhau bod trefniadau newydd i ariannu bysiau a Strategaethau Rhanbarthol Rhwydweithiau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yn rhoi blaenoriaeth i gyd-drefnu gwasanaethau a darparu gwybodaeth o safon uchel, yn cynnwys safonau ansawdd a chyfyngu ar ba mor aml y ceir newid amserlenni.*

**Derbyn**
Fel rhan o weithredu'r drefn cyllido bysiau newydd, rydym wedi nodi'n glir y byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol osod safonau gofynnol.

Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar gwmnïau yn cyrraedd safonau ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf. Gallai hyn gynnwys Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd statudol rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, a fyddai'n arwain at wariant mwy cydgysylltiedig ac effeithiol a gwell

gwybodaeth. Rydym eisoes yn ariannu swyddi tri Swyddog Cydymffurfiaeth Bysiau amser llawn o dan nawdd Bus Users Cymru er mwyn monitro perfformiad gwasanaethau bysiau ledled Cymru. Rwy’n ymrwymedig i gynnal y gefnogaeth hon.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol penodol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn, gan ei fod yn ymwneud â sut caiff cyllid sydd eisoes yn bodoli ei dargedu.

*Argymhelliad 13. Sefydlu a yw’r ddyletswydd i ddatblygu cynlluniau gwybodaeth am fysiau o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn cael ei chyflawni gan awdurdodau lleol Cymru, a darparu cymorth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.*

**Derbyn**
Bydd cyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn dibynnu ar gwmnïau yn sicrhau canlyniadau o ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf. Rydym yn sylweddoli bod darparu’r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn hwylus yn allweddol i annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn. Mae’n bosib y bydd awdurdod lleol yn gofyn i ddarparwr gwasanaeth gynnig gwell gwybodaeth ac yn adennill costau rhesymol gan y darparwr hwnnw.

*Argymhelliad 14. Pwyso ar yr holl weithredwyr trafnidiaeth i weithio gyda’i gilydd a chyda rhanddeiliaid perthnasol i roi’r arferion gorau ar waith o ran cyd-drefnu amserlenni, cysylltu gwasanaethau a chyhoeddi gwybodaeth amser real er mwyn darparu cysylltiadau di-dor rhwng rhwydweithiau bysiau, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gymunedol.*

**Derbyn**
Rwyf yn sylweddoli bod integreiddio amserlenni a chysylltiadau gwasanaeth yn un o’r prif heriau wrth ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gwbl integredig. Ceir enghreifftiau o arfer da ond gan fod llawer o gwmnïau a chan fod y system yn cael ei harwain gan y farchnad, nid yw'r darlun yn un cyson.

Byddwn yn dal i weithio gyda chwmnïau bysiau a threnau i wella’r maes hwn. Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar gwmnïau bysiau yn cyrraedd safonau ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf, a gall hynny gynnwys amserlenni sy’n fwy cydgysylltiedig.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn.

*Argymhelliad 15. Datblygu cynllun i ddarparu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus cwbl integredig i Gymru ar draws pob rhwydwaith trafnidiaeth fel blaenoriaeth, ochr yn ochr â darparu e-bwrs GoCymru.*

**Derbyn mewn egwyddor**
Mae dewisiadau i ddatblygu system tocynnau integredig wedi cael eu hystyried. Mae Cerdyn Clyfar Go Cymru wedi cael ei dreialu yn y gogledd a'r de.

Bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bysiau yn dibynnu ar gwmnïau bysiau yn cyrraedd safonau ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf, a gall hynny gynnwys tocynnau aml-fodd integredig.

Bydd angen gweld a oes cyllid ar gael cyn bwrw ymlaen i roi'r argymhelliad hwn ar waith.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae dewisiadau i ddatblygu system tocynnau gwbl integredig yng Nghymru wedi cael eu hystyried. Bydd angen ystyried y dewisiadau ymhellach cyn cymeradwyo a bydd angen gweld a oes cyllid ar gael cyn rhoi system o'r fath ar waith.

*Argymhelliad 16. Nodi'r arferion gorau o ran datblygu cyfnewidfeydd a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu safonau er mwyn darparu seilwaith o'r fath.*

**Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu sawl cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd ein cyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bysiau yn dibynnu ar gwmnïau a phartneriaid eraill yn cyrraedd safonau ansawdd, a gallai'r rheini gynnwys cyfnewidfeydd gwell.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn.

*Argymhelliad 17. Edrych eto ar y deg argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ynglŷn â hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl, a rhoi gwybodaeth ddiweddaru inni ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion hynny.*

**Derbyn**
Yn Atodiad 1, rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim

*Argymhelliad 18. Datblygu dealltwriaeth drylwyr o anghenion teithwyr fel sail i Broses Cynllunio Tymor Hir Network Rail a Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.*

**Derbyn**
Rydym eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Proses Cynllunio Tymor Hir Network Rail. Byddwn yn trafod gyda Network Rail sut maent yn ymgorffori persbectif y defnyddiwr yn y broses honno.

Byddwn yn datblygu dealltwriaeth o flaenoriaethau defnyddwyr a fydd yn llywio masnachfraint Cymru a'r Gororau yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**
Mae'n bosib y bydd rhywfaint o oblygiadau ariannol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn. Caiff goblygiadau ariannol y Broses Cynllunio Tymor Hir a masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau eu hystyried fel rhan o'u datblygiad ond mae'n bosib y bydd angen comisiynu gwaith ymchwil neu waith arall ychwanegol er mwyn datblygu dealltwriaeth o bersbectif y defnyddiwr. Bydd yr achos dros waith ychwanegol o'r fath yn cael ei benderfynu ar sail cost a budd, ar yr amod y bydd cyllideb ddigonol ar gael.

*Argymhelliad 19. Sicrhau bod integreiddio rhyngfoddol yn elfen allweddol o Fasnachfraint newydd Cymru a'r Gororau, ac y dylai hynny gwmpasu gwybodaeth, tocynnau ac amserlennu integredig.*

**Derbyn**
Ymchwilir i bwysigrwydd integreiddio moddol wrth ddatblygu masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.

**Goblygiadau Ariannol**
Nid oes dim goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil derbyn yr argymhelliad hwn. Caiff goblygiadau ariannol masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau eu hystyried wrth iddynt gael eu datblygu.

*Argymhelliad 20. Cyflwyno model Bwcabus mewn ardaloedd gwledig o Gymru nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif rwydwaith bysiau ar hyn o bryd*.

**Derbyn mewn egwyddor**
Mae Llywodraeth Cymru yn dal i roi cefnogaeth ariannol i Bwcabus, ac mae wedi neilltuo hyd at £350,000 ar gyfer y cyfnod 2012-15. Rydym yn annog awdurdodau lleol, cwmnïau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, a phobl sy'n byw mewn cymunedau lleol i ddysgu o'r profiad a geir gyda gwasanaeth Bwcabus.

**Goblygiadau Ariannol**
Byddai cyflwyno'r gwasanaeth Bwcabus yn ehangach yn arwain at oblygiadau o ran cost. Mae'r gwasanaeth presennol yn costio oddeutu £120,000 y flwyddyn mewn refeniw, gydag arian pellach gan Ewrop ac awdurdod lleol. Mae'r gwasanaethau hyn yn annhebygol o allu eu cyllido eu hunain a byddant yn parhau i fod angen cymorth arian cyhoeddus. Byddai angen gweld a oes cyllid ar gael cyn ystyried ehangu'r gwasanaeth Bwcabus.

*Argymhelliad 21. Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i wireddu darpariaeth trafnidiaeth gymunedol gyson, o ansawdd uchel, ar draws yr holl Gonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol.*

**Derbyn**
Rwyf wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gefnogi trafnidiaeth gymunedol i £2.5m yn 2013-14.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim heblaw'r cyllid ychwanegol a nodwyd uchod.

*Argymhelliad 22. Darparu mwy o gymorth i gynlluniau trafnidiaeth gymunedol arloesol a hyrwyddo arferion da er mwyn i'r sector ddarparu cymaint o gyfleoedd â phosibl, ac yn arbennig iddo ddarparu gwasanaethau lle mae'r farchnad fasnachol yn methu.*

**Derbyn**
Mae'r cyllid dan Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Ranbarthol yn 2013-14 yn golygu bod dwywaith y cyllid ar gael go iawn i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol o safon.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim heblaw'r cyllid ychwanegol a nodwyd uchod.

*Argymhelliad 23. Darparu mwy o sicrwydd ynglŷn ag ariannu dros gyfnod hwy fel bod modd i weithredwyr trafnidiaeth gymunedol gynllunio a buddsoddi yn y dyfodol.*

**Derbyn mewn egwyddor**
Rwy'n deall y pwysigrwydd a roddir gan gwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus i hyn a byddwn yn parhau i ystyried cwmpas trefniadau cyllid amlflwyddyn. Bydd angen i drefniadau cyllido barhau'n hyblyg fel y gellir ymateb i newidiadau annisgwyl mewn gwasanaethau.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim yn sgil derbyn yr argymhelliad.

*Argymhelliad 24. Canfod a datrys anghysondebau rhwng awdurdodau lleol o ran a ydynt nid yn unig yn caniatáu i weithredwyr trafnidiaeth gymunedol dendro am wasanaethau bws masnachol ond hefyd yn eu hannog i wneud hynny.*

**Derbyn**
Mae swyddogion wedi atgoffa awdurdodau lleol y gall trafnidiaeth gymunedol gynnig dewis gwahanol cost-effeithiol yn lle gwasanaethau bws confensiynol, yn dibynnu ar amgylchiadau.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim.

*Argymhelliad 25. Ceisio cryfhau'r strwythurau rhanbarthol fel bod ganddynt y pwerau gweithredol a'r capasiti i gynllunio a darparu pob elfen o drafnidiaeth integredig, yn cynnwys gwerthusiad trylwyr o'r model Gweithrediaeth Trafnidiaeth Teithwyr.*

**Derbyn**
Rwyf yn sylweddoli bod angen gwella'r ffordd y mae trafnidiaeth integredig yn cael ei chynllunio a'i darparu.  Rydym wrthi'n ystyried gwaith i nodi'r model gorau ar gyfer cyflawni pob elfen o drafnidiaeth integredig.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim yn sgil derbyn yr argymhelliad.

**Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal – cysylltiedig ag argymhelliad 17**

| Cyf | Argymhelliad | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| 1 | Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf ar sicrhau bod y gwaith o weithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn ystyried anghenion pobl anabl ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod ei hymgysylltiad â grwpiau pobl anabl yn gwella eto. | Rwyf wedi gofyn am gael datblygu Siarter Anabledd ar gyfer teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus, a chaiff honno ei datblygu o'r gwaith a wneir i nodi canlyniadau ansawdd ar gyfer teithwyr bysiau.<br><br>Mae Bus Users UK yng Nghymru wrthi'n adolygu gyda chwmnïau bysiau ac awdurdodau lleol sut maent yn dod yn eu blaenau o ran ymateb i'r argymhellion yn ei adroddiad ar fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr a chanddynt nam ar y synhwyrau. Mae'r adroddiad hwnnw yn canolbwyntio'n benodol ar wella gwybodaeth, hyfforddiant ac ymgysylltiad. |
| 2 | Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bosibl gwella'r trafodaethau am drafnidiaeth rhwng awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth a grwpiau ar gyfer pobl anabl, ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff trafodaethau fel hyn eu prif ffrydio ymhellach mewn dulliau cynllunio gwasanaethau | Bydd cyllid yn y dyfodol yn dibynnu ar gwmnïau bysiau yn cyrraedd safonau ansawdd yr hoffai teithwyr eu gweld fwyaf, a gall hynny gynnwys gwell ymgysylltu gyda grwpiau anabledd ar gynllun, diogelwch, mynediad a hyfforddiant, a chyfyngu ar adolygu amserlenni. Mae'n ofynnol i'r Consortia Rhanbarthol ymgynghori'n eang wrth ddatblygu eu Strategaethau ar gyfer Rhwydweithiau Bws a Thrafnidiaeth Gymunedol, a byddaf yn ystyried y rhain yn ddiweddarach eleni. |
| 3 | Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â darparu teithio ar fysiau am ddim i bobl hŷn a phobl anabl yng Nghymru, ond mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiogelu'r polisi pwysig hwn. | Mae'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn dal ar waith ac mae wedi cael ei ehangu i gynnwys personél y lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol a chyn-filwyr fel yr addawyd yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. |
| 4 | Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU iddi ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i dalu | Mae diwygio lles wedi arwain at newidiadau sylfaenol yn y system fudd-daliadau ers cynnig yr argymhelliad. |

| Cyf | Argymhelliad | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| | elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl i bobl sydd mewn gofal preswyl. | Diweddarwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gardiau bws rhatach er mwyn adlewyrchu'r broses o gyflwyno Taliadau Annibyniaeth personol fesul cam yn lle Lwfans Byw i'r Anabl.<br><br>Mae rheoliadau ynghylch Cynllun y Bathodyn Glas wedi'u diwygio er mwyn cysylltu cymhwystra ar gyfer bathodyn â'r budd-dâl newydd – Taliad Annibyniaeth Bersonol. Er mwyn lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles a chynnal tegwch i'r graddau gorau, dylai'r meini prawf ynghylch cymhwystra gynnwys derbyn cyfradd uwch ar gyfer Gweithgaredd Symudedd 1 – Cynllunio a dilyn taith, neu gyfradd safonol ar gyfer Gweithgaredd Symudedd 2 – Symud o gwmpas.<br><br>Mae'r cysylltiad ag Elfen Symudedd ar gyfradd Uwch Lwfans Byw i'r Anabl yn parhau ar gyfer pobl o dan 16 oed neu dros 65 oed lle y bo'n berthnasol. |
| 5 | Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio ei chanllawiau i awdurdodau lleol ar gardiau bws rhatach er mwyn:<br>- cynnwys ffurflen gais gyffredin i bob awdurdod lleol, a gaiff ei datblygu mewn ymgynghoriad â grwpiau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio, ei bod yn defnyddio iaith briodol a'i bod yn hawdd i bawb ei defnyddio;<br>- egluro'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r cerdyn bws rhatach i gydymaith | Mae Llywodraeth Cymru wedi annog y 22 awdurdod lleol i ddatblygu ffurflen gais gyffredin ar gyfer cardiau bws rhatach.<br><br>Wrth symud i gyllid rhanbarthol yn 2013-14, bydd hyn yn golygu y gellir lleihau'r 22 cynllun presennol i bedwar, a'r gobaith yw y bydd un cynllun yn dilyn maes o law.<br><br>Mae'r meini prawf ar gyfer cardiau i gydymaith wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae'r canllawiau hynny wedi'u hailanfon i awdurdodau lleol. |
| 6 | Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio deddfwriaeth i wella | Yn ei hymateb i Ran 2 Comisiwn Silk, nododd Llywodraeth Cymru fod trwyddedu tacsis yn faes ar gyfer datganoli pellach. |

| Cy f | Argymhelliad | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| | hygyrchedd pobl anabl i wasanaethau tacsi, ac yn gwneud sylwadau ar yr opsiwn dewisol i Lywodraeth y DU. | Yn ddiweddarach eleni bydd Comisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar ei adolygiad o drwyddedu tacsis. Bydd hyn yn creu cyfle i ystyried dulliau newydd a dulliau gwell o wella hygyrchedd. |
| 7 | Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gymdeithas Gydgysylltu Trafnidiaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lle mae gyrwyr ac offer ar gael ac er mwyn gallu gwneud gwell defnydd o'r adnoddau hynny. | Mae'n ofynnol i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosib drwy eu Strategaethau Rhwydwaith Rhanbarthol a fydd yn sylfaen i roi cyllid cyhoeddus i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau i gludo cleifion yn well yn y gwasanaeth iechyd, ac mae hynny'n cynnwys sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio. Mae'r sector trafnidiaeth gymunedol yn chwarae rhan yn y gwaith hwnnw. |
| 8 | Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda grwpiau ar gyfer pobl anabl er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut i wella'r fformat a'r wybodaeth a ddarperir. | Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddodd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ei adroddiad ar Ddarparu Gwybodaeth. Cynigiodd chwe argymhelliad ac rydym wrthi'n gweithredu'r rheini. |
| 9 | Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys hyfforddiant yn y cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr AAA ynghylch defnyddio trafnidiaeth. | Gwrthodwyd yr argymhelliad. |
| 10 | Argymhelliad 10. Wrth ddatblygu llwybrau a gaiff eu rhannu a chynlluniau ar gyfer ymylon palmentydd isel, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymgysylltu â grwpiau o bobl anabl o ddechrau'r broses gynllunio. | Yn unol â'r Bil Teithio Llesol (Cymru), mae canllawiau cynllunio wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer cynlluniau teithio llesol, a bydd y rhain yn rhoi sylw i rai o'r materion hyn. Mae'r Grŵp sy'n datblygu'r canllawiau yn cynnwys cynrychiolwyr o bobl anabl, a bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a fydd yn cynnwys ymgysylltu â phobl anabl. |

**Edwina Hart MBE, CstJ, AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**